

'DUW CARIAD YW'

Llefarydd.

Thema'r gwasanaeth hwn yw '**Duw cariad yw**'. Gadewch inni wrando ar adnodau o'r Beibl sy'n tystio am gariad Duw tuag atom, ac yn galw arnom i garu Duw ac i garu ein gilydd:

'Do, carodd Duw y byd gymaint nes iddo roi ei unig Fab.'

'Cariad yw Duw, ac y mae'r hwn sy'n aros mewn cariad yn aros yn Nuw, a Duw yn aros ynddo yntau.'

Câr yr Arglwydd dy Dduw â'th holl galon ac â'th holl enaid ac â'th holl feddwl. Dyma'r gorchymyn mwyaf a'r cyntaf. Ac y mae'r ail yn debyg iddo: Câr dy gymydog fel ti dy hun.'

Gweddiwn:

Ein Tad, diolchwn iti am gysur mawr dy gariad tuag atom yn lesu Grist, ac am y cyfle hwn i ymateb i'th gariad yn gywir ein calon ac yn ddiolchgar ein hysbryd. Yn dy drugaredd, sancteiddia ein myfyrdodau ger dy fron, a thywys ni i'th addoli mewn ysbryd a gwirionedd. Er mwyn ein Harglwydd lesu Grist. Amen.

Emyn: 174 – *Duw mawr y nefoedd faith*

Llefarydd:

'Duw cariad yw.' Mae'r adnod hon yn mynd â ni'n ôl i ddyddiau plentyndod, pryd y byddai ein rheini yn dysgu adnodau inni ar gyfer y Sul, a mwy na thebyg mai hon yw'r adnod gyntaf inni ei dysgu ar ein cof a'i dweud yn y capel. Pan oeddem yn blant, arferem roi cragen wrth ein clust i wrando ar sŵn tonnau'r môr yn curo o'i mewn, ac o wrando â'n calon ar yr adnod hon, rydym yn clywed ac yn teimlo curiadau calon Duw.

Adnod fechan iawn yw hi o ran ei hyd, ond mae'n aruthrol fawr o ran ei chynnwys. Tri gair sydd yma, ac mae i'r tri gair, fel ei gilydd, arwyddocâd a neges arbennig. Ond cyn i ni fanylu ar y tri gair, fe wrandawn ar dystiolaeth loan ym mhennod agoriadol ei lythyr.

Darllenriad: 1 loan 4: 7-16.
1I oan 4: 17-21

Gweddïwn:

(a)

Ein Tad, rydym wedi gwrandao ar neges dy Air sy'n tystio i fawredd dy gariad tuag atom, ac ym mherson dy Fab Iesu Grist fe wyddom ac fe gredwn fod hyn yn wir.

*Cariad Iesu Grist,
Cariad Duw yw Ef
Cariad mwya'r byd,
Cariad mwya'r Nef.*

Gwyddom, ein Tad, nad ydym yn deilwng o'th gariad tuag atom a chyffeswn inni bechu i'th erbyn mewn meddwl, gair a gweithred. Yn ein hedifeirwch, bydd drugarog wrthym ac estyn inni dy faddeuant rhad yn Iesu Grist. Fe ddywed loan wrthym,

'Os cyffeswn ein pechodau, y mae ef yn ffyddlon ac yn gyfiawn, ac fe faddeua, felly, i ni ein pechodau a'n glanhau o bob anghyfiawnder.'

O Dad, cadarnha neges dy Air yn ein meddyliau a'n calonnau, a thywys ni i ddweud,

*Arglwydd, dyma fi
ar dy alwad Di.
Canna f'enaid yn y gwaed
a gaed ar Galfari.*

(b)

Ein Tad, wrth fyfyrto ar fywyd dy Fab Iesu Grist a'r modd iddo ein gwasanaethu yn ddiarbed gan roi ei einioes yn bridwerth dros lawer,

tywys ni i'w ganlyn yn ufudd ac yn ostyngedig. Agor ein llygaid i weld mai trwy ymwadu â ni ein hunain ac ymgysegru'n llwyr i'th wasanaethu y'n harweinig i'r 'bywyd sydd fywyd yn wir'. O Dad, yn enw Iesu Grist, tynha dy afael ynom, ac arwain ni i gysegru pob dawn a feddwn i fynegi d'arglwyddiaeth di ar ein bywyd.

*Cymer Arglwydd, f'einioes i,
i'w chysegru oll i Ti;
cymer fy munudau i fod
fyth yn llifo er dy glod.*

(c)

Gweddïwn dros drueiniaid ein byd, ymhell ac yn agos:
y rhai sy'n dioddef gormes a thrais;
sy'n brin o fwyd a dillad;
sy'n wan eu meddwl a heb gwmni;
sy'n dioddef siom colli iechyd a hiraeth colli anwyliaid,
a phawb sy'n teimlo'n unig ac yn ddiymadferth yn
wyneb anawsterau bywyd.

O Dad, clyw ein gweddïau drostynt a gwêl anghenion dy blant. Diolchwn iti am bawb a gysegrodd eu doniau i ysgafnhau beichiau'r anghenus, a gwna ninnau yn fwy cariadlawn, ac yn fwy parod ein cymwynas. Gofynnwn hyn yn enw ein Harglwydd Iesu Grist, a'n dysgodd i weddïo, 'Ein Tad...' Amen.

Emyn: 239 – *Pan rwystrir ni gan bethau'r llawr*

Llefarydd:

'Duw cariad yw.' Y mae gan dri gair yr adnod hon eu neges i ni heddiw, ac fe ddechreuwn gyda'r gair cyntaf, sef 'Duw'. Mae'n debyg fod canran uchel o bobl ein gwlad yn dal i gredu ym modolaeth Duw, neu o leiaf yn credu bod 'rhywun' wedi creu'r byd, ac yn edrych ar ein hôl. Wel, yn y Beibl, y gair sy'n cael ei ddefnyddio yn lle 'rhywun' yw Duw: *'Yn y dechreuad y creodd Duw y nefoedd a'r ddaear.'*

Dyma yw neges gyntaf penodau agoriadol Llyfr Genesis - fod Duw wedi creu'r byd, ac wedi creu dyn ar ei lun a'i ddelw ei hun. Mae hyn yn rhan o'n cred fel Cristnogion, a'r hyn sy'n naturiol inni ei wneud mewn oedfa yw cydnabod bodolaeth Duw a'i arglwyddiaeth drosom, a'i addoli.

Ond fel y dywed Ioan yn ei lythyr, nid oes neb wedi gweld Duw erioed, ac mae hyn yn ddealladwy oherwydd ni allwn fel meidrolion amgyffred na gweld yr anfeidrol Dduw sy'n annherfynol ac yn dragwyddol. Gŵr oedd yn ymwybodol iawn o hyn oedd yr Apostol Paul. Fe gafodd dröedigaeth ysgytwol ar y ffordd i Ddamascus, ac roedd yn ŵr o graffter ysbrydol arbennig iawn, fel y gwelwn o'i lythyrau yn y Testament Newydd. Ef, o bosibl, oedd diwinydd mwyaf yr Eglwys Fore, ac eto, roedd Paul hefyd, fel meidrolyn, yn cydnabod mawredd y dasg o geisio egluro bodolaeth Duw i bobl ei oes. Daw hyn yn glir yn ei dystiolaeth i'w fab yn y ffydd, Timotheus, pan ddywed mai *'ganddo ef yn unig y mae anfarwoldeb, ac mewn goleuni anhygyrch y mae'n preswyllo. Nid oes neb wedi ei weld, ac ni ddichon neb ei weld.'* Ond er na welodd neb dduw erioed, rydym yn gallu gweld gweithredoedd Duw yn y greadigaeth ac yn y bydysawd. Mynegir hyn yn hyfryd iawn gan y Salmydd yn yr wythfed Salm,

'Arglwydd ein lôr ni, mor ardderchog yw dy enw ar yr holl ddaear.'

*'Pan edrychaf ar y nefoedd, gwaith dy fysedd, y lloer a'r sêr,
a roddaist yn eu lle, yr hwn a osodaist dy ogoniant uwch y nefoedd.'*

Felly, gweld gweithredoedd Duw a wnawn yn y bydysawd uwch ben, ac yn y greadigaeth o'n hamgylch. Gobeithio fod gennym lygaid i sylwi ar waith ei ddwylo ym mhrydferthwch byd natur, a chalon i werthfawrogi'r cyfan yn ddiolchgar. Ie,

Tydi sy'n deilwng oll o'm cân

fy Nghrëwr mawr a'm Duw.

Dy ddoniau Di o'm hamgylch maent

bob awr rwyf yn byw.

Mae'r emynydd yn peri inni sylweddoli mor dda yw hi arnom o gymharu â llawer o ghenhedloedd ein byd, a'r peth lleiaf y gallwn ei

wneud yw ymateb i alwad Cymorth Cristnogol i rannu bendithion y greadigaeth, a chynorthwyo pobl anghenus ein byd. Yr hyn sy'n drist yw bod cymaint o adnoddau'r greadigaeth yn cael ei ddefnyddio i ddibenion hunanol, ac yn waeth na hynny, hyd yn oed, i ddibenion militaraid. Canlyniad anorfod hynny yw llygru a dinistrio'r greadigaeth a lladd pobl wrth y miloedd mewn rhyfeloedd erchyll.

Emyn: 64 –*Tydi sy deilwng oll o'm cân*

Llefarydd:

Ond mae mwy na Duw'r Creawdwr yn yr adnod hon. Mae Duw hefyd yn Dduw cariad, fel y gwelwn yn yr ail air, sef '*Duw cariad yw.*' Duw yn 'caru'- Duw yn 'hoffi'. Y mae gwahaniaeth mawr rhwng 'caru' a 'hoffi'. Er enghraifft, rydym yn 'hoffi' llawer iawn o bobl, ond rydym yn naturiol, yn 'caru' ein cymar, ein plant a'n teulu. Gair gwan iawn yw 'hoffi' o'i gymharu â 'charu'. Y mae angerdd a chynhesrwydd a dyfnder teimlad yn y gair 'caru'. Mae 'caru' yn air cryf, ac yn arbennig felly pan fyddwn yn ei gysylltu â Duw. '*Duw cariad yw.*'

Wrth gwrs, yn ôl y Beibl, mae llawer o bethau eraill yn wir am Dduw. Y mae'n Dduw sanctaidd sy'n casáu pechod a phob math o ddrygioni. Yn Genesis, llyfr cyntaf y Beibl, dywedir fod Duw yn Greawdwr daionus, a'i fod wedi creu popeth '*yn dda iawn.*' Yn Llyfr y Salmau, dywedir fod Duw '*yn Dad trugarog a graslawn...*' ac y '*bydd yn barnu'r byd â chyfiawnder a'r bobloedd â'i wirionedd.*' Yn y Beibl hefyd fe ddywedir mai '*Ysbryd yw Duw*', ac mai '*Goleuni tragwyddol*' yw Duw, ond y peth mwyaf y gallwn ei ddweud yw ei fod, fel y dywed loan, yn Dduw cariad. Cariad yw hanfod natur Duw a charreg sylfaen y ffydd Gristnogol:

*'Os gofyn rhywun beth yw Duw,
Atebwn ni mai cariad yw.'*

Llefarydd:

Ond beth yw ystyr dweud ei fod yn Dduw cariad, a pha reswm sydd gennym gredu hynny? Y mae'r ateb i'w gael yn y newyddion da a ddaeth i'n byd ym mherson ei fab Iesu Grist. Dywed loan

wrthym, *'Carodd Duw y byd gymaint nes iddo roi ei unig Fab.'* Duw yn rhoi - dyma yw natur cariad ar ei orau. Gwelir hyn yng nghariad mam a thad pan fydd ar ei orau, a'r un modd, yng nghariad taid a nain! Pan fyddwn ar ein gorau, rydym yn rhoi i'n plant - rhoi ein hamser, ein gofal, ein cwmni a'n cefnogaeth, ac yn fwy na dim, rhoi ein hunain i'r plant. Wel, os felly gariad dynol (sy'n amherffaith,) onid cymaint mwy gariad Duw tuag atom yn Iesu Grist? Yn wir, newyddion da'r Testament Newydd yw bod Duw wedi *'caru'r byd gymaint nes iddo roi ei unig Fab inni,'* ac yn unol ag ewyllys y Tad, fe roddodd y Mab ei hunan inni, heb gyfrif ein pechodau na chyfri'r gost. Gwnaeth Iesu Grist hyn o Fethlehem i'r Groes. Rhoddodd ei hunan yn llwyr inni - ei amser i'n gwasanaethu - ei gyfeillgarwch i'r gwrthodedig - ei dosturi i'r cleifion, a rhoddodd ufudd-dod llwyr i'w Dad nefol. Arweiniodd hyn Iesu i rodio ffordd cariad i'w phen draw, gan *'roi ei einioes yn bridwerth dros lawer.'*

Nid dyma'r amser i amlhau geiriau. Nid geiriau sydd eu hangen arnom wrth fyfyrto ar y rhoi a gostiodd i Iesu Grist angau ar groes, ond ysbryd edifeirwch am holl bechodau'n bywyd, ac ysbryd credu yn ei gariad diymollwng tuag atom.

*Gweld y rhoddi ar Galfaria
wnaeth i'm hunan dorri i lawr,
ar un llaw fy nirfawr angen,
ar y llall ei gariad mawr:
rhaid oedd ildio,
eiddo'r Iesu fyddaf mwy.*

Llefarydd:

'Duw cariad...'. Ond un peth yw cyhoeddi hyn ar y Sul mewn oedfa ymhlith cyfeillion, peth arall yw dangos a gweithredu hyn yn ein bywyd. A dyma yw pwyslais loan yn y bennod hon. Ar ôl gwneud y datganiad mawr mai *'Duw cariad yw'* sydd wedi *'anfon ei Fab yn aberth cymod dros ein pechodau-*, mae'n symud ymlaen i'n hatgoffa yn adnod 11, *'Gyfeillion annwyl, os yw Duw wedi ein caru ni fel hyn, fe ddylem ninnau hefyd garu ein gilydd.'*

Onid yw'r gair 'dylem' yn yr adnod hon yn arwyddocaol? Hynny yw, os yw Duw wedi'n caru mor aruthrol â hyn, y peth lleiaf y gallwn ei wneud yw adlewyrchu hynny yn ein perthynas â'n gilydd drwy garu lles ein gilydd, derbyn a chynnal ein gilydd, a maddau i'n gilydd fel brodyr a chwirydd yng Nghrist.

Ymhellach, dylem adlewyrchu cariad Duw, nid yn unig ymhlith teulu'r ffydd ond ymhlith plant Duw ymhob man, beth bynnag yw eu cefndir, eu cyflwr a'u cred. Mynegir hyn yn glir yn adnod olaf y bennod hon, lle dywed Ioan,

'A dyma'r gorchymyn sydd gennym oddi wrtho ef: bod i'r hwn sy'n caru Duw garu ei frawd hefyd.'

Yn llyfr Daniel Owen, cyngor Mari Lewis i'w mab Rhys oedd, "*Trià gael crefydd y bydd ei chynfas yn lapio rhywun arall heblaw ti dy hun.*" Cyngor da. Mor hawdd yw bod yn hunanol ein hysbryd ac ymboeni'n afiach am ein hiachawdwriaeth bersonol ar draul ein gofal am eraill. Wrth gwrs, mae'n bwysig, fel y dywed yr Apostol Paul, i '*weithio allan ein hiachawdwriaeth mewn ofn a dychryn*', ond mai'r un mor bwysig cyfieithu ein cred a'n cariad yn gymwynasau hael a da. Dyma'r ysbryd sy'n gydnaws â chariad Duw yn Iesu Grist.

*Ehanga 'mryd a gwared fi
rhag culni o bob rhyw;
rho i'm weld pob mab i ti
yn frawd i mi, O Dduw.*

Emyn: 541– *O Fab y Dyn, Eneiniog Duw,*

Llefarydd:

Mae 'na un gair ar ôl, sef y gair bach 'yw' - '*Duw cariad yw.*' Mae 'yw' yn golygu'r presennol - y funud hon! Nid Duw cariad ddoe sydd yma, na Duw cariad yfory, ond Duw cariad y funud hon. Cariad ddoe - nid yw hwnnw hanner cystal â chariad heddiw. Cariad ddoe - mae fel tân wedi diffodd yn y grât, a throi'n lludw llwyd. Atgofion yn unig yw cariad ddoe -atgofion sy'n ein gadael yn wag, yn oer ac yn hiraethus.

Am ryw reswm, mae cariad ddoe yn gwneud i rywun feddwl am oerni'r gaeaf. Gan amlaf, cawn yng Nghymru oedfaon caled sy'n ymestyn dros nifer o fisoedd, ond yn raddol ym mis Mawrth, wrth i'r dydd ymestyn, mae'r tywydd yn gwella. Dechreuau'r coed flaguro a'r caeau lasu, sy'n arwyddo fod oerni'r gaeaf yn cilio a chynhesrwydd y gwanwyn ar ddod. Gŵr a fynegodd hyn yn hyfryd yw'r prifardd o Lanrwst, y diweddar T. Glynne Davies,

*Diwrnod o haf ym Mai,
A'r awyr yn llachar las.
Oerni'r Gaeaf ar drai
A'r brithyll yn dda ei flas.*

Ond er mor dda ei flas yw'r brithyll yn nhymor y gwanwyn, mae ar ddyn angen mwy na bendithion y greadigaeth,

*Blodau'r maes ac adar nef
gedwir ganddo.
ond ar ddyn mae'i gariad Ef,
diolch Iddo.*

A dyma yw'r newyddion da, nad cariad ddoe yw cariad Duw, ond cariad sy'n ein cofleidio ni heddiw yn ei gariad a'i ras, ac fe wyddom hyn yn Iesu Grist. Nid adfywio ac yna edwino a marw drachefn, fel y gwna byd natur, wnaeth Iesu ond atgyfodi yn Orchfygwr pechod, angau a'r bedd.

Yn Iesu Grist, credwn fod Duw yn Dduw Emaniwel - yn Dduw gyda ni heddiw - a'i fod yn fwy na digon ar gyfer holl anghenion bywyd heddiw, a phob yfory a ddaw i'n rhan.

Mae angen ffydd i gredu hyn, a pha le gwell i gael ffydd ac i feithrin ffydd nac yng nghlyw cyhoeddiad yr Efengyl fod y Crist byw yn rhydd i'n hanrhydeddu â'i bresenoldeb sanctaidd, i'n bendithio â meddyginiaeth ei gariad, ac i dderbyn ein diolch a'n clod. Er mwyn ei Enw. Amen.

Emyn: 551 – *Arglwydd bywyd, tyred atom*

Y Fendith:

*Am Efengyl gras a'i breintiau
rhoddwn ddiolch byth i ti;
boed i waith dy Ysbryd Sanctaidd
lwyddo fwyfwy ynom ni;
i'r gwirionedd
gwna ni'n ffyddlon tra bôm fyw. Amen.*